**Tasg 2**

# Adolygiad

1. Mae'r adolygiad ar y brif sgrin wedi cael ei gynllunio'n ofalus. Sut mae'r awdur wedi strwythuro'r darn? Beth mae'n ei wneud ym mhob rhes isod?
   Llenwch y golofn ar y dde.

| | **Cynllun y gwaith** |
|---|---|
| Cyfres ffeithiol yw **Y Dyn Gwyllt – Tri Thymor** ac, fel mae'r teitl yn awgrymu, mae'n sôn am ddyn sy'n byw yn y gwyllt am dri thymor. | Enwi'r rhaglen ac egluro pa fath o raglen yw hi |
| Enw'r dyn yw Carwyn Jones ac mae'n treulio pum diwrnod yn byw yn yr awyr agored yn Sir Benfro yn ystod yr haf, pum diwrnod ym Mannau Brycheiniog yn ystod yr hydref a phum diwrnod yn Eryri yn ystod y gaeaf. Mae'n amlwg ei fod yn hoffi cael tipyn o antur a'i fod wrth ei fodd yn wynebu heriau newydd, gan gynnwys hela'i fwyd ei hun ac adeiladu lloches er mwyn cael cysgod. | |
| Mae Carwyn yn berson penderfynol ac ymarferol iawn. Er ei fod yn wynebu her anodd ac er ei fod yn blino'n ofnadwy ac yn teimlo'n wan ar adegau, mae'n gwneud ei orau glas i lwyddo bob tro. [...] Mae'n berson ymarferol iawn hefyd. Mae'n gwybod yn union beth i'w gasglu a'i hela fel bwyd a sut i'w baratoi ac mae'n egluro sut i wneud tasgau pwysig fel cynnau tân ac ati. | |
| Carwyn yw'r prif gymeriad, wrth gwrs ac, fel arfer, mae'n siarad â ni, y gwylwyr. Weithiau, mae'n siarad â'r dyn camera hefyd, ond mae un cymeriad hoffus arall yn y gyfres – Gwen, ci ffyddlon Carwyn. Mae perthynas arbennig iawn yn bodoli rhwng y ddau. | |
| Mae'r golygfeydd yn anhygoel ac mae'r gwaith camera'n wych. Yn y rhaglen ar Sir Benfro, er enghraifft, rydyn ni'n gweld arfordir hardd Sir Benfro, gan gynnwys ambell forlo yn y môr, y traethau a'r bryniau. | |
| Mae'r rhaglen wedi ei chynllunio'n ardderchog. Ar y dechrau, rydyn ni'n gweld Carwyn yn cyrraedd ac yn cerdded ar hyd un o lwybrau Sir Benfro. Yna, rydyn ni'n ei ddilyn o ddydd i ddydd am bum diwrnod. Ar ddiwedd y rhaglen, rydyn ni'n ei weld yn mynd yn ôl ar hyd y llwybr ac yn ôl i'r man lle y dechreuodd. | |

| | |
|---|---|
| Mae hon yn rhaglen hynod o ddiddorol a dw i’n siŵr y bydd llawer yn ei mwynhau. Wedi dweud hynny, mae ambell olygfa allai beri gofid i rai gwylwyr, yn enwedig plant, ac mae gwefan S4C yn awgrymu bod y rhaglen yn anaddas i bobl o dan 16 oed. | |
| Mae’r rhaglen ar S4C ar nos Iau ym mis Mehefin am hanner awr wedi naw. | |

2. Trafodwch eich atebion.

3. Gwyliwch raglen ar S4C. Gall fod yn:

- rhaglen chwaraeon
- rhaglen gerddoriaeth
- drama
- rhaglen ddogfen
- rhaglen gylchgrawn
- rhaglen am ffermio
- opera sebon
- rhaglen gwis
- unrhyw fath o raglen

Ysgrifennwch adolygiad o’r rhaglen.

Cofiwch gynllunio’ch gwaith cyn dechrau – gallwch chi ddilyn y cynllun ar y dudalen flaenorol os ydych chi eisiau.